# Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## SJR(2)-17-06(p.1)

## Dyddiad: 6 Rhagfyr 2006
## Amser: 9.30 - 12.30
## Lleoliad: Y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

### Teitl: Blaenoriaethau polisi a deddfwriaeth yr UE ar gyfer 2006

### Diben y Papur

1. Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y blaenoriaethau a ddewiswyd gan y Pwyllgor ar gyfer 2006 o Flaenraglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd.

### Cefndir

2. Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ionawr, bu'r Pwyllgor yn trafod Blaenraglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd a nododd fod y materion a ganlyn yn flaenoriaeth iddo ar gyfer y flwyddyn i ddod:

### Hawliau'r Plentyn

Dogfen Gyfathrebu ar Hawliau'r Plentyn: ei diben yw gosod fframwaith gweithredu ar gyfer cyflwyno hawliau plant yng nghyd-destun Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

### Polisi Cyffuriau

Papur Gwyrdd ar gyffuriau a chymdeithas sifil: byddai'n darparu fframwaith ar gyfer gweithio â chymdeithas sifil i roi ar waith Gynllun Gweithredu'r UE ar Gyffuriau 2005-2008. Awgrymwyd y Cynllun Gweithredu ar Gyffuriau fel un o'r blaenoriaethau i'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ei drafod yn 2005.

### Niwed yn sgil Alcohol

Dogfen Gyfathrebu'r Comisiwn ar bolisi alcohol: y nod yw lleihau effaith yfed alcohol ar iechyd ac ar gymdeithas.

### Gwasanaethau Post

Cyfarwyddeb arfaethedig ar farchnad fewnol ar gyfer gwasanaethau post. Byddai hyn yn hyrwyddo ymhellach y gwaith o greu marchnad fewnol ar gyfer gwasanaethau post (h.y. sicrhau bod y

monopolïau post sy’n weddill yn agored i gystadleuaeth), a hynny erbyn y dyddiad targed, sef 2009. Gallai hyn effeithio ar ardaloedd gwledig yn arbennig.

## Camau i’w cymryd gan y Pwyllgor

3. Mae’r Atodiad sydd ynghlwm yn cynnwys manylion ymhellach ar y pynciau a nodwyd. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi’r papur a mynegi a ydynt am drafod unrhyw un o’r papurau a gyhoeddwyd.

Janice Gregory AC – Cadeirydd y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio